Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gymraeg Mornant**
**Picton Road**
**Picton**
**Penyffordd**
**Treffynnon**
**CH8 9JQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Mornant

Mae'r ysgol wedi ei lleoli ger pentref Picton, yn agos i ffordd yr arfordir sy'n cysylltu Prestatyn a Threffynnon o fewn awdurdod lleol Y Fflint. Mae 48 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 7 oed meithrin. Maent wedi eu trefnu'n ddau ddosbarth oed cymysg.

Ar gyfartaledd tros y tair blynedd ddiwethaf, mae tua 26% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 18%. Mae 26% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, sydd yn uwch na'r ganran genedlaethol o 21%.

Daw ychydig iawn o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Mae rhan fwyaf o gefndir gwyn Prydeinig gydag ychydig iawn o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae tua 9% o'r disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2014 a phenodwyd pennaeth dros dro yn Medi 2018. Ers 2016, mae'r ysgol yn rhan o ffederasiwn ffurfiol gydag Ysgol Uwchradd Maes Garmon o dan un corff llywodraethol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol, lle roddir blaenoriaeth uchel ar ddatblygu lles disgyblion. Mae'r disgyblion yn cydweithio'n aeddfed, ac mae'r berthynas rhyngddynt a'r staff yn nodwedd gref. Mae ethos Cymreig amlwg yn bodoli yn yr ysgol, gyda'r staff yn annog y disgyblion i wneud defnydd cyson o'r Gymraeg ymhob agwedd o'u gwaith a'u bywyd. Mae’r disgyblion yn ymfalchïo yn eu dwyieithrwydd, gan deimlo eu bod yn rhan bwysig o'u hardal leol.

Trwy adeiladu ar eu dysgu blaenorol a chynllunio profiadau diddorol iddynt, mae’r athrawon yn sicrhau bod medrau’r disgyblion yn cael eu datblygu’n dda. O ganlyniad, erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae llawer yn cyflawni'n dda o'u mannau cychwyn, yn enwedig o ran eu medrau llythrennedd.

Mae’r pennaeth dros dro yn cynnig arweiniad cadarn i’r ysgol, gan hybu gweledigaeth glir er mwyn ei gwella ymhellach. Mae’n adnabod yn drylwyr brif gryfderau’r ysgol a’r agweddau hynny sydd angen eu gwella. Gyda’r wybodaeth honno, a chyda cymorth y corff llywodraethol, mae’n egnïol wrth roi cyfeiriad strategol clir i’r tîm gweithgar o staff yr ysgol. Mae hyn wedi arwain tuag at welliannau amlwg yn y ddarpariaeth a safonau, ac yn enwedig felly dros y flwyddyn ddiwethaf.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Mireinio’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd a TGCh disgyblion

A2 Gwella medrau sillafu disgyblion

A3 Rhannu’r arferion da o ran adborth athrawon ar draws yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rheini ag anghenion addysgol arbennig, yn cyflawni'n dda o'u mannau cychwyn. Wrth symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu dysgu blaenorol ac yn cymhwyso gwybodaeth newydd yn gyflym.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau llythrennedd cadarn gan ran fwyaf y disgyblion. Mae'r disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol heb fedrau'r Gymraeg yn dysgu'r iaith yn gyflym, ac erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio iaith goeth a naturiol wrth sgwrsio gydag oedolion a'u cyfoedion. Mae medrau darllen llawer o'r disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus, ac erbyn diwedd y cyfnod, maent yn darllen yn rhugl a chywir, gan ymdrechu'n ddiwyd i adnabod geiriau anghyfarwydd. Maent yn darllen gyda mynegiant ac ystyr briodol ac maent yn awyddus i drafod cynnwys eu llyfrau. Mae llawer o ddisgyblion ieuengaf y cyfnod sylfaen yn trefnu a chyflwyno gwaith ysgrifenedig dychmygus a ffeithiol mewn gwahanol ffyrdd, gan ddechrau ysgrifennu brawddegau byr sydd wedi'u cysylltu â phatrymau cyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu'n gynyddol annibynnol at wahanol bwrpasau, er enghraifft wrth gymharu bywyd yn y canol oesoedd â bywyd heddiw. Mae'r disgyblion mwy abl yn y cyfnod yn trawsieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg yn hyderus, er enghraifft wrth ymchwilio i anifeiliaid y nos.

Mae medrau llythrennedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda yng nghyfnod allweddol 2. Maent yn gwrando'n astud ar safbwyntiau eraill ac yn trafod testunau amrywiol yn aeddfed. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn llithr ddarllen am wybodaeth yn fedrus i gywain gwybodaeth o'r we, er enghraifft wrth greu cyflwyniad am Japan ac origami. Wrth ymateb i ystod eang o destunau darllen, maent yn mynegi barn am y cynnwys gan ddangos dealltwriaeth gadarn o'r prif syniadau, y digwyddiadau a'r cymeriadau. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn defnyddio geirfa eang ac yn cynnwys ffeithiau pwrpasol i gefnogi'r ysgrifennu, er enghraifft wrth greu adroddiadau syml mewn gwyddoniaeth. Defnyddiant eu dychymyg a'u dysgu blaenorol yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr hiraethus gan filwr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ac wrth ysgrifennu cerdd â geirfa eang. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig ac yn annibynnol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad am fuddugoliaeth Cymru mewn gêm rygbi yn erbyn Awstralia. Ar draws yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion lawysgrifen glir ac mae'r gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol. Er hyn, nid yw sillafu'r lleiafrif o ddisgyblion yn ddigon cywir.

Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio eu medrau mesur er mwyn cyfrifo hyd cysgod, gan gyflwyno'r canlyniadau ar ffurf graff. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn cymhwyso'u medrau'n synhwyrol mewn ychydig o weithgareddau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gyfrifo cymedr a chyfartaledd canlyniadau yn eu hymchwiliadau gwyddonol. Maent yn cyflwyno eu darganfyddiadau yn synhwyrol mewn graffiau cywir. Fodd bynnag, cyfyng yw eu defnydd o ystod o fedrau rhifedd ar draws meysydd eraill y cwricwlwm ar yr un lefel â'u gwaith mathemateg.

Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o'r disgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn defnyddio offer a meddalwedd yn hyderus o oedran cynnar ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r we. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r disgyblion ieuengaf yn creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau drwy ddefnyddio pecyn arlunio a phrosesu geiriau yn bwrpasol, er enghraifft wrth ddisgrifio gwaith y ffermwr. Maent yn defnyddio meddalwedd trin data yn synhwyrol i greu siart syml o'u hoff ffrwyth a llysiau, er enghraifft. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth ac yn cychwyn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus i gyflwyno'u canfyddiadau, er enghraifft am goedwigoedd glaw. Fodd bynnag, er bod disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd i gymhwyso eu medrau TGCh yn ddiweddar, nid ydynt wedi meistroli ystod lawn o'r medrau hyn yn ddigon cadarn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un disgybl yn dangos balchder yn eu hysgol ac yn datblygu'n ddysgwyr hyderus. Maent yn teimlo'n ddiogel o fewn y gymuned ddysgu gefnogol, gyda'r rhan fwyaf yn gyfforddus i droi at gyfoedion ac oedolion am gyngor a chymorth. Mae dealltwriaeth bron pob un disgybl o bwysigrwydd yfed dŵr, bwyta'n iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn dda. Mae llawer o'r disgyblion yn atgyfnerthu hyn yn effeithiol gan gymryd rhan mewn ystod addas o weithgareddau corfforol, er enghraifft mewn clybiau ffitrwydd amser cinio, gweithgaredd milltir y dydd a sesiynau pêl-rwyd a phêl-droed.

Mae bron pob un disgybl yn ymddwyn yn arbennig o dda o fewn yr ysgol ac yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn dangos cwrteisi tuag at ei gilydd a pharch tuag at staff ac ymwelwyr. Mae'r disgyblion hŷn yn dangos agwedd ofalgar naturiol tuag at y disgyblion iau. Mae llawer o ddisgyblion yn gyfarwydd â thrin a thrafod mewn grwpiau ac ymhlith ei gilydd ac yn dangos parch pan fydd eraill yn siarad. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o drefniadaeth ddosbarth ac maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd amrywiol yn hyderus ac annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu trwy gynnig syniadau i'w cynnwys yn eu themâu astudio. Maent yn gofyn cwestiynau ymchwiliol sydd yn arwain y dysgu; er enghraifft, 'beth sydd yn digwydd i'r afalau ym mherllan Mornant?'. Mae'r disgyblion yn frwdfrydig i wneud defnydd da o'r amgylchedd lleol, yn enwedig tir yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at eu chwilfrydedd naturiol ac yn eu hybu i fod yn ddysgwyr ymchwiliol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig ac yn cadw ar dasg am gyfnodau estynedig. Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n dda iawn o fewn y dosbarth ac yn dangos diddordeb brwd yn eu gwaith. Maent yn datblygu medrau dyfalbarhad a gwydnwch yn llwyddiannus ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r strategaeth 'Meddylfryd Mornant'.

Mae gwybodaeth llawer o ddisgyblion am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd eang yn gadarn. Mae'r disgyblion hynaf yn trafod effaith dadgoedwigo yn yr Amazon ar y blaned. Maent yn ymfalchïo yn y cyfle i gyfrannu at weithgareddau yn y gymuned

sy’n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu dealltwriaeth gadarn llawer o ddisgyblion am faterion cymdeithasol ac anghenion pobl eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd i arwain materion perthnasol er mwyn helpu a gwella’r ysgol, er enghraifft wrth gyfrannu at y gwaith o wella rhyngrwyd yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Un o gryfderau’r ysgol yw’r berthynas weithio glòs sy’n bodoli rhwng y disgyblion a’r staff. Mae hyn yn creu awyrgylch ddysgu gadarnhaol, ble mae’r disgyblion yn fodlon dyfalbarhau er mwyn cyflawni eu gwaith ac yn arddel ymddygiad arbennig. Agwedd arall o gryfder yw’r pwyslais mae’r staff yn ei roi ar ddatblygu medrau llafar Cymraeg y disgyblion, sy’n eu tywys o oed cynnar i fod yn ddysgwyr dwyieithog cymwys.

Mae’r athrawon yn cysylltu eu gwersi'n fedrus er mwyn sicrhau cyfleoedd priodol i ddisgyblion adeiladu ar eu dysgu blaenorol. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir i'w disgyblion, ac yn darparu tasgau sydd wedi eu teilwra'n briodol ar gyfer yr ystod gallu o fewn y dosbarthiadau. Mae hyn yn cymell disgyblion i ddysgu ac yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Mae’r athrawon a’r staff yn adnabod y disgyblion yn dda, sy’n eu galluogi i ddarparu cymorth penodol iddynt er mwyn gwella eu cyrhaeddiad a’u lles. Maent yn defnyddio technegau holi'n grefftus i helpu disgyblion ddeall cysyniadau newydd ac i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau. Wrth gynorthwyo yn y dosbarth, mae’r staff yn darparu adborth llafar buddiol sy’n canolbwyntio'n dda ar sut y gall disgyblion wella eu gwaith, gan eu hannog i ddyfalbarhau. Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi mireinio eu harfer o roi adborth i ddisgyblion. Erbyn nawr, mae’r athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig pwrpasol sy'n aml yn cyfeirio at wella medrau disgyblion, yn enwedig o ran eu medrau ysgrifennu. Fodd bynnag, nid yw’r ymarferion adborth newydd yn ddigon cyson ar draws yr ysgol eto. Yn yr arfer orau, mae’r sylwadau’n ddiagnostig ac yn cydnabod cyfraniadau gorau’r disgyblion gan amlinellu’r hyn y gellid ei wella. Yn ddiweddar, darperir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu gwaith eu hunain a’u cyfoedion. Enghraifft dda yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cynnig gwelliannau i gyflwyniadau TGCh eu cyfoedion, gan adael nodiadau electronig ar waith ei gilydd.

Mae'r athrawon yn darparu amrywiaeth dda o brofiadau ysgogol i'r disgyblion, sy’n cynnwys cyfleoedd difyr iddynt gydweithio â disgyblion o ysgolion eraill ar brosiectau amrywiol. Er enghraifft, drwy’r prosiect Hedd, mae’r ysgol wedi cydweithio ag ysgolion eraill a Theatr Clwyd gan ddarparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion wella eu medrau llythrennedd wrth iddynt greu animeiddiad difyr. Mae llawer o’r disgyblion yn cael cyfleoedd defnyddiol i ddylanwadu ar elfen o’u dysgu, er enghraifft wrth gyfrannu syniadau sy’n gysylltiedig â’u thema am Japan. Mae paratoadau cadarn yn eu lle ar gyfer diwygio cwricwlwm yr ysgol i fodloni egwyddorion y cwricwlwm newydd i Gymru. Darperir amrywiaeth gyfoethog o gyfleoedd i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliant Cymru a datblygu ymwybyddiaeth dda o hanes ac arferion Cymreig.

Ar y cyfan, mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau’r disgyblion yn dda. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd ar draws meysydd eraill y cwricwlwm. Er enghraifft, mae’r athrawon yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ystyried cynnwys llyfr darllen y dosbarth ac i wella eu medrau

llafar gan, yn ei dro, eu paratoi i wneud darnau o waith ysgrifennu estynedig perthnasol. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd, yn arbennig wrth ddefnyddio data i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wyddonol. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio agweddau o'u medrau rhifedd mewn pynciau amrywiol eraill i'r un lefel â'u gwaith mathemateg. Mae cynlluniau'r athrawon i ddatblygu medrau TGCh disgyblion ac i roi'r fframwaith cymhwysedd digidol ar waith yn gadarn. Yn ddiweddar, maent wedi cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau TGCh mewn cyd-destunau amrywiol, fel ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth am gestyll gwahanol yng Nghymru, er enghraifft. Er hynny, nid oes cyfleoedd digon eang i ddisgyblion gymhwyso'r ystod lawn o fedrau TGCh yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n llwyddiannus, yn enwedig wrth sicrhau darpariaeth o weithgareddau ffocws a pharhaus diddorol i'r disgyblion. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd creadigol o'r ardaloedd allanol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae awyrgylch gartrefol yn yr ysgol gyda threfniadau effeithiol i gefnogi lles disgyblion. Cryfder amlwg yw'r pwyslais y mae staff yn ei roi ar ddatblygu gwerthoedd a lles pob disgybl, gyda phob un yn elwa'n fawr o berthnasoedd gweithio gofalgar sy'n bodoli. Mae'r staff yn hybu ymddygiad da'r disgyblion yn effeithiol, sy'n sicrhau safonau uchel o gwrteisi a pharch, ac maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt fagu ymwybyddiaeth dda o'u hawliau.

Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar gan gymryd camau priodol ac amserol i'w cynorthwyo'n effeithiol. Mae awyrgylch glòs yr ysgol yn arwain at drafodaethau ffurfiol ac anffurfiol am ddisgyblion yn rheolaidd. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau effeithiol i olrhain cynnydd a lles grwpiau o ddisgyblion. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn llwyddiannus er mwyn clustnodi darpariaeth benodol iddynt. Mae'r rhaglenni ymyrraeth o fewn y dosbarthiadau yn gadarn ac yn cefnogi dysgu disgyblion penodol yn llwyddiannus, er enghraifft i gryfhau eu medrau llythrennedd a rhifedd. Ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, maent yn darparu cynlluniau addysg unigol pwrpasol ac mae'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn gyson wrth eu llunio a'u hadolygu. O ganlyniad, mae'r ysgol yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Yn y dosbarthiadau, mae'r staff yn sicrhau cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt o fewn y themâu astudio tymhorol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dechrau cael mwy o ddylanwad ar yr hyn maent am ei ddysgu. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ysgwyddo cyfrifoldebau trwy ymgymryd ầ rolau o fewn yr amryw bwyllgorau sy'n bodoli. Mae cyngor ysgol gweithgar wedi ei sefydlu gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion o bob blwyddyn. Mae'r profiadau hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd cyfrannu at gymdeithas, ac yn eu helpu i ddatblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol. Mae'r ysgol, ynghyd â'r cyngor ysgol, yn trefnu gweithgareddau codi arian i gefnogi nifer o elusennau. Maent yn noddi plentyn o Gambodia, er enghraifft. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth rhan fwyaf y disgyblion am anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae'r ysgol yn meithrin perthynas werthfawr gyda'r rhieni drwy ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol iddynt am berfformiad a lles eu plant yn rheolaidd. Mae cyfleoedd gwerthfawr i'r rhieni gefnogi eu plant, er enghraifft gyda'r ysgol yn cynnal caffi siarad Cymraeg a sesiynau datblygu medrau meddwl disgyblion trwy ddefnyddio medrau gwyddonol.

Mae'r ysgol yn darparu'n fwriadus ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Maent yn gwneud defnydd da o'r gymuned leol er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi sefydlu côr cymunedol sy'n perfformio yn y gymuned yn aml ac yn gwahodd aelodau o'r gymuned i'r ysgol yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli a thrwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol o safon dda. Mae'r athrawon yn sicrhau bod y gwasanaethau cyd-addoli yn gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ac ystyried anghenion eraill mewn awyrgylch ysbrydol. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd da ar gyfer magu goddefgarwch a chydraddoldeb yn effeithiol. O ganlyniad, mae datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth i annog disgyblion i fod yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol yn effeithiol gyda threfniadau gwerthfawr ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn annog y disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg yn effeithiol ac yn hybu creadigrwydd yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw'r prosiect diweddar i greu mygydau a dawns ar gyfer gorymdaith yn Llandudno, gan weithio gyda theatr leol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Fel rhan o'r tîm arwain o fewn y ffederasiwn, mae pennaeth dros dro Ysgol Mornant yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn i'r ysgol. Mae hyn yn seiliedig ar weledigaeth sy'n canolbwyntio ar les disgyblion, datblygu'r Gymraeg, gwella safonau, a sicrhau dyfodol llwyddiannus i'r ysgol. Mae rhanddeiliaid yr ysgol yn rhannu'r weledigaeth honno yn frwd.

Mae'r pennaeth dros dro yn frwdfrydig iawn wrth sicrhau ffocws pendant ar gryfhau'r ddarpariaeth a gwella safonau a lles disgyblion. Mae'r gwaith i hybu'r Gymraeg yn yr ysgol yn ganmoladwy. Mae'r arweinwyr a'r staff yn effeithiol iawn wrth sicrhau bod yr addysgu a'r profiadau dysgu yn galluogi'r disgyblion i fod yn ddwyieithog erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ddwy ysgol o fewn Ffederasiwn Cwlwm. Maent yn gweithredu'n angerddol dros sicrhau addysg Gymraeg yn Sir y Fflint. Mae rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n addas.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso hylaw, sy'n darparu tystiolaeth ddefnyddiol i'r arweinwyr ddeall prif gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn synhwyrol er mwyn datblygu cynllun gwella pwrpasol â blaenoriaethau dilys a chamau mesuradwy. Trwy glustnodi staff i ddiwallu gwahanol agweddau o'r blaenoriaethau, mae gan yr ysgol hanes da o welliant, ac yn enwedig felly dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae enghreifftiau diweddar o lwyddiant yn cynnwys cynnydd ym medrau llythrennedd y disgyblion, buddsoddiad synhwyrol mewn adnoddau TGCh i gryfhau'r ddarpariaeth a'r strategaethau buddiol i gynnal a gwella lles disgyblion.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan staff fynediad teg i gyfleoedd gwerthfawr ar gyfer eu datblygu'n broffesiynol. Mae'r cyfleoedd i'r athrawon gymryd cyfrifoldeb mwy uniongyrchol am flaenoriaethau gwella'r ysgol yn darparu profiadau defnyddiol iddynt gyfrannu'n benodol tuag at welliannau. Mae'r hyfforddiant diweddar i'r staff ymgyfarwyddo â dulliau i wella cyrhaeddiad disgyblion, drwy ymyraethau gwahanol, yn cyfrannu'n dda at gryfhau'r ddarpariaeth. Mae hyn wedi arwain at welliannau ym medrau mathemateg a darllen carfan o ddisgyblion. Mae trefniadau rheoli perfformiad staff yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol yn briodol ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt drafod eu cyfraniad tuag at wella ansawdd a safonau yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'i hadnoddau'n effeithlon ac yn gymesur, gan wneud y mwyaf o'i hamgylchedd dan do a'r awyr agored er mwyn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Mae arweinwyr wedi adnabod yr angen am adnoddau TGCh ychwanegol i gryfhau'r ddarpariaeth, ac yn dilyn buddsoddiad diweddar, mae cyfleoedd mwy sylweddol bellach i ddisgyblion ddechrau cymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'r grant datblygu disgyblion er mwyn cefnogi grwpiau penodol i wella eu medrau ymhellach, yn enwedig eu medrau llythrennedd.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/02/2020